# Anti-Racism Charter

Our organisation pledges we will introduce the following ongoing commitments within 12 months of signing:

**Our leaders will**

- Recognise the need and benefit in championing a racially diverse workforce.
- Challenge racism internally and externally wherever it arises in relation to the organisation.
- Recognise the impact of racism upon staff members' wellbeing.
- Set and regularly review strategy to improve racial equality, diversity and inclusion so that the organisation reflects the communities it serves.

**Our organisation will**

- Have a clear and visible race equality policy championed by leadership.
- Have a clear and visible anti-racism programme of initiatives and actions.
- Undertake equality impact assessments for all strategic-level decisions.
- Undertake ethnicity pay gap recording and publicly publish results.
- Undertake workforce ethnicity recording and publicly publish results.
- Provide unconscious bias and anti-racism training for all staff members.
- Provide a racism reporting process for notifying, investigating and recording outcomes.
- Provide robust equality training for managers involved in recruiting, promotions and investigating allegations.
- Provide a wellbeing support facility for staff experiencing racism in the workplace.
- Will be anti-racist, not just non-racist in all we do.

**Our equality auditing process will review**

- Recruitment processes to identify and address race disparities in equality of opportunity.
- Exit interview results to identify and address race disparities in retention of staff members.
- Promotional processes to identify and address race disparities in equality of opportunity.
- Discipline and grievance to identify and address race disparity in outcomes of comparable cases.
- Policies and research under a duty or commitment to promote solidarity and tackle racism.
- Our mission, values, and support to removing racial discrimination in all its forms.

**Employer**

**Date**

UNISON Cymru Wales

# Siarter Gwrth-Hiliaeth

Mae ein mudiad yn addo y byddwn yn cyflwyno'r ymrwymiadau parhaus canlynol o fewn 12 mis i arwyddo'r siarter:

**Bydd ein harweinwyr yn**

- Cydnabod yr angen a'r budd mewn hyrwyddo gweithlu sy'n hiliol amrywiol.
- Herio hiliaeth yn fewnol ac yn allanol ble bynnag y mae'n codi mewn perthynas â'r mudiad.
- Cydnabod effaith hiliaeth ar lesiant aelodau staff.
- Gosod ac adolygu strategaeth yn rheolaidd i wella cydraddoldeb hiliol, amrywioldeb a chynhwysiant fel bod y mudiad yn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

**Bydd gan ein mudiad**

- Bolisi cydraddoldeb hiliol clir a gweladwy wedi'i hyrwyddo gan yr arweinyddiaeth.
- Rhaglen glir a gweladwy o fentrau a chamau gweithredu gwrth-hiliaeth.
- Bydd yn cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar gyfer pob penderfyniad ar lefel strategol.
- Bydd yn cofnodi'r bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd ac yn cyhoeddi'r canlyniadau yn gyhoeddus.
- Bydd yn cofnodi ethnigrwydd y gweithlu ac yn cyhoeddi'r canlyniadau yn gyhoeddus.
- Bydd yn darparu hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol a gwrth-hiliaeth i bob aelod o staff.
- Bydd yn darparu proses adrodd am hiliaeth ar gyfer hysbysu, ymchwilio a chofnodi canlyniadau.
- Bydd yn darparu hyfforddiant cydraddoldeb cadarn i reolwyr sy'n ymwneud â recriwtio, dyrchafu ac ymchwilio i honiadau.
- Bydd yn darparu cyfleuster cymorth llesiant ar gyfer staff sy'n profi hiliaeth yn y gweithle.
- Bydd yn wrth-hiliol, nid dim ond peidio â bod yn hiliol ym mhopeth a wnawn.

**Bydd ein proses archwilio cydraddoldeb yn adolygu**

- Prosesau recriwtio i nodi a mynd i'r afael â gwahaniaethau hiliol o ran cyfleoedd cyfartal.
- Canlyniadau cyfweliadau ymadael i nodi a mynd i'r afael â gwahaniaethau hiliol o ran dargadwedd aelodau staff.
- Prosesau dyrchafu i nodi a mynd i'r afael â gwahaniaethau hiliol mewn cyfle cyfartal.
- Prosesau disgyblu a chwyno i nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol mewn canlyniadau achosion tebyg.
- Polisïau ac ymchwil o dan ddyletswydd neu ymrwymiad i hyrwyddo undod a mynd i'r afael â hiliaeth.
- Ein cennad, gwerthoedd, a chefnogaeth i gael gwared ar gamwahaniaethu hiliol o bob math.

**Cyflogwr**

**Dyddiad**

UNSAIN Cymru Wales